General Optical Council



Prynu lensys cyffwrdd cosmetig

Mae lensys cyffwrdd cosmetig, sydd hefyd yn cael eu galw'n lensys **sero-pŵer** neu **plano**, yn cael eu defnyddio i newid lliw neu ymddangosiad y llygaid. Mae'r llyfryn hwn yn rhoi gwybodaeth i helpu i sicrhau bod defnyddwyr yn eu prynu a'u defnyddio'n ddiogel.

Beth yw lensys cyffwrdd cosmetig?

Mae lensys cyffwrdd cosmetig yn rhai â lliw, patrwm neu newyddbeth arnynt. Mae pobl yn eu defnyddio at amrywiaeth o ddibenion, fel gwella eu hymddangosiad, er ffasiwn, effeithiau arbennig mewn ffilmiau, gwisg ffansi neu i guddio'r llygad.

Yn ôl y gyfraith, dylent ond gael eu cyflenwi gan, neu dan oruchwyliaeth, optometrydd cofrestredig, optegydd dosbarthu neu ymarferwr meddygol.

Pa ragofalon mae eu hangen gyda lensys cyffwrdd cosmetig?

Mae lensys cyffwrdd cosmetig yn effeithiol i newid lliw ac ymddangosiad llygaid. Ond os bydd defnyddwyr yn eu prynu gan gyflenwyr heblaw ymarferwr cofrestredig, maent yn wynebu risg achosi difrod difrifol i'w llygaid.

Dylai lensys cosmetig gael eu ffitio'n briodol gan weithiwr proffesiynol cymwys ac mae'n rhaid wrth ofal parhaus.

Mae angen i ddefnyddwyr fod yr un mor ofalus wrth brynu a gwisgo'r lensys hyn ag unrhyw lensys cyffwrdd eraill. Mae'n hanfodol cael cyfarwyddiadau digonol am hylifau gofal lensys a'u storio, hylendid a'u trin a thrafod, cyfnodau gwisgo ac oes lensys, ac i ddilyn yr holl weithdrefnau sy'n cael eu hargymell.

Fel arfer mae problemau gyda lensys cosmetig yn ymwneud â gwerthiannau lensys heb eu rheoleiddio, methu â dilyn cyfarwyddiadau a hylendid gwael. O'u trin a thrafod yn briodol, gofalu amdanyn nhw, a'u defnyddio yn unol ag argymhellion yr ymarferwr sy'n eu rhagnodi yn unig, mae risg heintiad i'r llygaid yn isel iawn.

Beth yw risgiau posibl lensys cyffwrdd cosmetig?

Gall defnyddio lensys cyffwrdd sy'n anaddas i'r llygaid, neu eu defnyddio'n anghywir, beri problemau difrifol i lygaid gan gynnwys wlserau cornbilennol a heintiadau. Gall wlserau cornbilennol ddatblygu'n gyflym o'u gadael heb eu trin. Gall heintiad heb ei reoli arwain at greithio'r gornbilen a nam i'r golwg. Mewn achosion eithafol, gallant arwain at ddallineb a cholli llygad.

Ymhlith y risgiau eraill sydd ynghlwm wrth ddefnyddio'r lensys hyn mae llid yr amrant, chwyddo'r gornbilen, adweithiau alergaidd, crafu'r gornbilen a golwg mwy cyfyngedig.

Mae'r risgiau'n uwch os bydd defnyddiwr yn defnyddio lensys rhywun arall. Gall hyn ledu heintiad rhwng defnyddwyr, ac mae'n beryglus.

I helpu i sicrhau defnydd diogel lensys cosmetig

- **Peidiwch â'u prynu ond lle mae optometrydd cofrestredig, optegydd dosbarthu neu ymarferwr meddygol yn bresennol**
- **Mynnwch gael y lensys wedi eu ffitio'n briodol gan weithiwr proffesiynol cymwys**
- **Dilynwch yr holl gyngor a roddir am wisgo a gofalu am lensys**
- **Ewch am wiriadau llygaid rheolaidd**
- **Peidiwch byth â rhannu neu gyfnewid lensys**

Beth yw'r tramgwyddau troseddol dan sylw?

Gall lensys sero pŵer ond gael eu cyflenwi gan neu dan oruchwyliaeth optometrydd cofrestredig, optegydd dosbarthu neu ymarferwr meddygol.

Mae goruchwylio yn golygu bod y person cofrestredig yn bresennol yn yr adeilad, yn ymwybodol o'r weithdrefn ac mewn sefyllfa i ymyrryd os bydd angen. Hefyd mae'n rhaid i'r gwerthwr/cyflenwr wneud trefniadau i'r gwisgwr dderbyn gofal parhaus.

Mae unrhyw werthiannau lensys cyffwrdd cosmetig nad ydynt yn bodloni'r gofynion hyn yn anghyfreithlon o dan y Ddeddf Optegwyr.

Wrth glywed am doriadau honedig i'r Ddeddf, rydym yn gweithredu. Yn gyntaf, byddwn fel arfer yn ysgrifennu at y gwerthwr ac yn ei wahodd i roi'r gorau i unrhyw weithgarwch anghyfreithlon. Gall camau pellach gael eu cymryd os bydd angen, er enghraifft, erlyniad preifat neu gyd-drefnu â Gwasanaeth Erlyn y Goron neu gorff erlyn cyhoeddus arall.

Sut mae rhoi gwybod am werthiannau anghyfreithlon?

Rydym yn cymryd unrhyw dorri'r Ddeddf Optegwyr yn ddifrifol a byddwn yn mynd ar drywydd honiadau yn egnïol.

Os ydych yn amau bod rhywun yn gwerthu lensys cyffwrdd cosmetig yn anghyfreithlon, rhowch wybod i'r GOC drwy ffonio 020 7580 3898 a dethol opsiwn 2.

Ynghylch y GOC

Ni sy'n rheoleiddio optegwyr, myfyrwyr sy'n hyfforddi i fynd yn optegwyr a busnesau optegol yn y DU. Ar hyn o bryd mae rhyw 24,000 o optometryddion, optegwyr dosbarthu, myfyrwyr optegol a busnesau optegol ar ein cofrestri.

Daw ein pwerau o Ddeddf Optegwyr 1989, fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn 2005 (Diwygio) Deddf Optegwyr 1989 a deddfwriaeth gysylltiedig. Gallwn erlyn unrhyw fusnes neu unigolyn sy'n torri'r cyfreithiau a bennir yn y Ddeddf.

Am ragor o wybodaeth

Am ragor o wybodaeth ac i ddarllen y gyfraith a bennir yn Neddf Optegwyr, gweler ein gwefan www.optical.org.

Efallai y byddwch am gysylltu hefyd â:

Cymdeithas Lensys Cyffwrdd Prydain
7/8 Market Place
Llundain W1W 8AG
Ffôn: 020 7580 6661
Ffacs: 020 7580 6669
adminbcla@bcla.org.uk

Ewch i www.bcla.org.uk am ganllaw defnyddwyr i lensys cyffwrdd.

Y Cyngor Optegol Cyffredinol
41 Harley St
Llundain W1G 8DJ
Ffôn: 020 7580 3898
Ffacs: 020 7307 3939
goc@optical.org

Mae'r llyfryn hwn ar gael mewn print bras ac ieithoedd heblaw Cymraeg. Am gopïau mewn fformatiau eraill, cysylltwch â ni gan ddefnyddio'r manylion uchod.

© Y Cyngor Optegol Cyffredinol. Mai 2011. Cedwir pob hawl.